Sefydlu datganiad sefyllfa ar gyfer Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang yng Nghymru

Estyn
Rhagoriaeth i bawb....Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau addysg lleol (AALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- AALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y Ganolfan Byd Gwaith.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2006: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.

Cynnwys	Tudalen

Cyflwyniad **1**

Prif ganfyddiadau **3**

Argymhellion **6**

Pa mor dda y deellir ADCDFE? **7**

Pa mor dda y deellir diben ADCDFE? 7
Pa mor dda y deellir elfennau ADCDFE? 8
Pa mor dda y deellir manteision ADCDFE? 9

Beth yw ansawdd a graddau ADCDFE mewn ysgolion yng Nghymru? **10**

Beth yw ansawdd a graddau ADCDFE mewn colegau Addysg Bellach yng Nghymru? **14**

Pa gymorth sydd ar gael ar gyfer ADCDFE? **15**

Pa gymorth a gynigir gan yr AALI? 15
Pa gymorth arall sydd ar gael? 15
Beth yw rôl y cynlluniau gwobrwyo? 16
Beth yw ansawdd a graddau'r cymorth sydd ar gael? 17

Sut ydym ni'n symud ymlaen? **19**

Beth yw'r cyfleoedd, y cyfyngiadau a'r anghenion? 19
Symud ymlaen 20

Atodiad Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang – model

Cyflwyniad

1 Diben yr adroddiad yw rhoi datganiad sefyllfa am addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang (ADCDFE) mewn ysgolion a cholegau addysg bellach (AB) yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn seiliedig ar ymchwil a gomisiynwyd gan Estyn ac a gynhaliwyd gan Sheila Bennell, Jim Coe, Harm-Jan Fricke ac Ange Grunsell.

2 Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru Banel Ymgynghorol ar gyfer ADCDFE. Lluniodd y panel gynllun gweithredu ar gyfer ADCDFE yn 2006. Mae'r adroddiad hwn yn cyfrannu at weithredu'r cynllun hwnnw trwy sefydlu gwaelodlin ar gyfer ADCDFE mewn ysgolion a cholegau AB yng Nghymru ym mis Ebrill 2006.

3 Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar:

- raddau, dulliau ac ansawdd ADCDFE mewn ysgolion a cholegau; a'r
- systemau, y strwythurau a'r ffyrdd o weithio sy'n cefnogi ADCDFE a'i ddatblygiad posibl yn y dyfodol.

4 Cyn llunio'r adroddiad, fe wnaeth y tîm:

- adolygu sampl o adroddiadau arolygu Estyn a dogfennau perthnasol eraill;
- archwilio ymatebion i holiadur a anfonwyd at sampl o ysgolion a cholegau AB yng Nghymru;
- cyfweld â swyddogion, penaethiaid ac athrawon o bedwar awdurdod addysg lleol (AALlau);
- gwahodd cyfraniadau gan y 18 AALl arall;
- cyfweld â staff mewn pedwar coleg AB;
- adolygu'r prif gynlluniau gwobrwyo sy'n berthnasol i ADCDFE sydd ar waith yng Nghymru; a
- chyfweld ag aelodau o Banel Ymgynghorol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer ADCDFE a naw arbenigwr ym maes ADCDFE o Gymru a mannau eraill.

5 Yn 2002, cyhoeddodd ACCAC, yr Adran dros Ddatblygiad Rhyngwladol (DFID), Estyn a Llywodraeth Cynulliad Cymru ddogfen arweiniad cwricwlwm ar gyfer ysgolion o'r enw 'Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang – Pam? Beth? Sut?' Mae'r Arweiniad yn disgrifio diben ADCDFE mewn perthynas â datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Rhaid bod y syniadau allweddol sy'n gyffredin i'r naill a'r llall yn ymwneud â datblygu'r wybodaeth, y medrau a'r gwerthoedd i gyfranogi mewn penderfyniadau ynghylch gwella ansawdd bywyd a hyrwyddo byd tecach a mwy cynaliadwy.

6 Mae'r arweiniad yn diffinio bod ADCDFE yn ymwneud â'r canlynol:

- y cysylltiadau rhwng cymdeithas, economi a'r amgylchedd a rhwng ein bywydau ein hunain a bywydau'r bobl hynny ledled y byd;
- anghenion a hawliau cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol;
- y berthynas rhwng pŵer, adnoddau a hawliau dynol;
- goblygiadau lleol a byd-eang popeth a wnawn; a'r
- camau y gall unigolion a sefydliadau eu cymryd wrth ymateb i faterion lleol a byd-eang.

7 Mae'r arweiniad yn parhau trwy ddisgrifio naw cysyniad allweddol canlynol ADCDFE:

- cyd-ddibyniaeth;
- dinasyddiaeth a stiwardiaeth;
- anghenion a hawliau;
- amrywiaeth;
- newid cynaliadwy;
- ansawdd bywyd;
- ansicrwydd a rhagofal;
- gwerthoedd ac amgyffrediadau; a
- datrys gwrthdaro.

8 Mae'r Adran Datblygiad Rhyngwladol (DFID) wedi sefydlu menter ar draws y DU o'r enw Galluogi Cymorth Effeithiol (GCE). Yng Nghymru, ariennir GCE ar y cyd gan DFID a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Nod y fenter yw sefydlu rhwydweithiau lleol i gefnogi ysgolion yn eu gwaith mewn ADCDFE.

Prif ganfyddiadau

9 Nid oes gan athrawon ac ymgynghorwyr ddealltwriaeth glir a chyson o ddiffiniad, diben a manteision ADCDFE. Mae hyn yn her sylweddol wrth geisio nodi meini prawf i arfarnu perfformiad yn y maes hwn. Yn gyffredinol, mae ysgolion, colegau ac AALlau yn fwy hyderus ynghylch datblygiad cynaliadwy, ac yn canolbwyntio mwy arno na dinasyddiaeth fyd-eang.

10 Er bod ysgolion yn frwdfrydig ynghylch hyrwyddo datblygiad cynaliadwy, maent yn aml yn llai clir ynghylch nodi sut a lle gallant ddatblygu medrau a gwerthoedd cysylltiedig ADCDFE. Yn gyffredinol, mae personél allweddol mewn ysgolion a cholegau yn gyfarwydd â'r cysyniadau gwaelodol allweddol yn y ddogfen arweiniad cwricwlwm, ond nid yw staff eraill yn ymwybodol ohonynt ar y cyfan. Ar y cyfan, nid yw athrawon yn ystyried bod y cysyniadau allweddol yn ffordd fuddiol i drefnu gwaith a gweithgareddau ADCDFE.

11 Sefyllfa ADCDFE mewn ysgolion yng Nghymru ar hyn o bryd yw bod:

- mwy o waith ar ddatblygiad cynaliadwy nac ar ddinasyddiaeth fyd-eang;
- gwaith mewn ysgolion cynradd o ansawdd gwell ac wedi'i ddatblygu mwy na mewn ysgolion uwchradd;
- pob ysgol yn gwneud rhywfaint o waith sy'n ymwneud ag ef;
- tua thri chwarter yr ysgolion yn rhoi ychydig iawn o sylw cydlynus a chyson iddo;
- tua un o bob pump o ysgolion, ysgolion cynradd yn bennaf, yn dechrau datblygu eu gwaith trwy gydlynu gwell; a
- bod ganddo le canolog sydd wedi'i drefnu'n dda ym mywyd a gwaith llai nag un o bob deg o'r cyfanswm ac ysgolion cynradd yw bron pob un o'r ysgolion hyn.

12 Mae'r pedwar coleg sydd wedi'u cynnwys yn yr arolwg ar gyfnodau gwahanol o ran datblygu eu gwaith ar ADCDFE. Mae dau ohonynt wedi archwilio'u darpariaeth ac maent yn ei ymgorffori yn eu cwricwlwm, eu hethos a'i harfarniad. Mae un coleg yn cynllunio ar gyfer mwy o ymgorffori, ac mae'r pedwerydd coleg ar gyfnod cynnar o ran datblygu. Mae pob un o'r colegau'n rhoi mwy o bwyslais ar ddatblygiad cynaliadwy nac ar ddinasyddiaeth fyd-eang.

13 Mae cymorth AALl ar gyfer ADCDFE yn anghyson ledled Cymru. Lle mae cymorth AALl ar gael, mae'n canolbwyntio ar ddarparu digwyddiadau hyfforddi, yn aml mewn cydweithrediad â'r fenter GCE. Mae AALlau yn arbennig o weithredol yn hyrwyddo cyfranogiad ysgolion mewn cynlluniau gwobrwyo a mentrau tebyg, yn enwedig Rhwydwaith Cymru o Gynlluniau Ysgolion Iach.

14 Ar wahân i'r arweiniad a'r cymorth a gaiff ysgolion gan AALlau, cânt arweiniad a chymorth defnyddiol fel arfer gan:

- Rwydwaith Cymru o Gynlluniau Ysgolion Iach;
- Cynllun Gwobrwyo Eco-Ysgolion, a chynlluniau amgylcheddol tebyg;
- Canolfannau Datblygu Addysg[1]; a
- chynlluniau rhyngwladol sy'n cysylltu ysgolion.

15 Mae'r GCE yn weithredol wrth adeiladu strategaethau a fframweithiau rhanbarthol sy'n galluogi ysgolion i hyrwyddo cysylltiadau byd-eang a dealltwriaeth o faterion tlodi'r byd. Fodd bynnag, ychydig iawn o ysgolion sy'n ymwybodol o'r gwaith hwn ar y cyfan. Caiff colegau AB gymorth yn bennaf gan Ganolfannau Datblygu Addysg lleol a chan rai grwpiau cymunedol.

16 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cymryd rhan mewn un neu fwy o gynlluniau gwobrwyo sy'n berthnasol neu'n gysylltiedig ag ADCDFE, a'r rhain yn aml yw'r prif ysgogwr a chyfrwng dros roi sylw iddo. Mae ysgolion cyfranogol yn gyffredinol yn fwy cadarnhaol ynghylch cynlluniau gwobrwyo. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae cynlluniau'n canolbwyntio ar ddatblygiad cynaliadwy a byw yn iach ac nid ydynt yn rhoi digon o sylw i ddinasyddiaeth fyd-eang. Ar y cyfan, mae athrawon yn ystyried nodweddion canlynol y cynlluniau yn gymhleth:

- nifer y gwahanol gynlluniau gwobrwyo;
- y diffyg cydlyniad rhyngddyn nhw a mentrau eraill; a
- dangosyddion a gofynion ansawdd gwahanol y cynlluniau.

17 Teimla ysgolion a cholegau ei bod yn bwysig y dylai fod cyllid penodol ar gyfer ADCDFE, yn enwedig ar gyfer gwella cydlynu gweithgareddau. Cyfeiriodd ysgolion at effaith gadarnhaol y cydlynwyr lleol ar gyfer cynlluniau fel Rhwydwaith Cymru ar gyfer y Cynllun Ysgolion Iach ac Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol.

18 Dyma gyfleoedd allweddol ar gyfer datblygu ADCDFE ymhellach:

- yr adolygiad cyfredol posibl o'r cwricwlwm cenedlaethol a Chynllun Gweithredu Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang Llywodraeth Cynulliad Cymru i godi ei broffil;
- diwygio manylebau arholi ac ehangu craidd Cymhwyster Bagloriaeth Cymru;

[1] Canolfannau lleol annibynnol yw Canolfannau Datblygu Addysg sy'n cefnogi athrawon, gweithwyr ieuenctid, addysgwyr cymunedol, sefydliadau addysg uwch a myfyrwyr wrth ddysgu am faterion datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

- ychwanegu agweddau dinasyddiaeth fyd-eang at ganllawiau arolygu Estyn ar gyfer addysg bellach; a

- menter GCE, sy'n gallu helpu i sefydlu cydweithio rhwng gwahanol asiantaethau a rhwng partneriaid statudol ac anstatudol.

19 Dyma'r cyfyngiadau a'r rhwystrau allweddol at ddatblygu gwaith ADCDFE ymhellach:

- y blaenoriaethau anghyson ar gyfer cynllunio cwricwlwm;

- yr angen i resymoli blaenoriaethau strategol mewn cynllunio cwricwlwm er mwyn helpu ysgolion a cholegau i fynd i'r afael â mentrau Llywodraeth Cynulliad Cymru;

- blaenoriaethu annigonol mewn ysgolion;

- diffyg gwybodaeth am arfer dda, gan gynnwys mynediad at syniadau syml sy'n hawdd i'w deall;

- cystadleuaeth ganfyddedig rhwng sefydliadau anllywodraethol a gwahanol fentrau; a

- chymorth mwy cyfyngedig ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang o'i gymharu ag addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy.

Argymhellion

20 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru trwy Banel Ymgynghorol ADCDFE:

A1 egluro diben ADCDFE a chysylltu'r achos addysgol ar ei chyfer gyda datganiad diben Llywodraeth Cynulliad Cymru ar addysg a dysgu gydol oes;

A2 egluro'r diffiniad o ADCDFE, gan amlygu'n benodol ei harbenigrwydd a'i manteision i ddysgwyr;

A3 nodi rhesymeg a defnydd posibl y cysyniadau allweddol yn y ddogfen Arweiniad, a chysylltu'r rhain yn amlwg â diffiniad a diben ADCDFE;

A4 datblygu strategaeth i gefnogi cydlynu gwaith ADCDFE yn lleol ar draws awdurdodau gwirfoddol a statudol, ac asiantaethau. Dylai'r strategaeth hefyd gynnwys canllawiau i helpu darparwyr i wella ansawdd addysgu a dysgu a'r safonau a gyflawnir gan ddysgwyr, a fframwaith i gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus athrawon; a

A5 sefydlu meini prawf penodol sy'n galluogi darparwyr i arfarnu eu gwaith mewn ADCDFE.

Pa mor dda y deellir ADCDFE?

Pa mor dda y deellir diben ADCDFE?

21 Nid oes gan athrawon ac ymgynghorwyr AALl ddealltwriaeth glir a chyson o ddiffiniad a diben ADCDFE fel maes dysgu eang sy'n cwmpasu materion cynaliadwyedd a dinasyddiaeth ar raddfa fyd-eang. Mae gan y rhan fwyaf o athrawon ddealltwriaeth eang o ddyheadau ADCDFE, ond nid yw'r rhan fwyaf yn gyfarwydd â'r ddogfen arweiniad cwricwlwm. Mae enghreifftiau o'r diffiniadau a roddant yn cynnwys ei bod yn ymwneud â'r canlynol:

- 'addysgu plant sut i ofalu am ein byd a sut i barchu diwylliannau eraill'; ac
- 'ymwybyddiaeth o'r byd a chyd-ddibyniaeth ei bobl'.

22 Mae swyddogion AALl yn tueddu i ystyried bod ADCDFE yn ymagwedd at addysgu a dysgu yn ogystal â chorff cynnwys. Cyfeiriant at ddatblygu agweddau ac ymddygiad yn ogystal â helpu dysgwyr i ennill ymwybyddiaeth a dealltwriaeth.

23 Nid yw llawer o reolwyr mewn ysgolion a cholegau yn gwbl hyderus ynghylch dealltwriaeth eu staff o ADCDFE. Dim ond mewn tua chwarter y darparwyr yn y sampl y ceir dealltwriaeth dda, ac mae'n anfoddhaol mewn tua thraean ohonynt. Mae ysgolion, colegau ac AALlau yn gyffredinol yn fwy hyderus am ddatblygiad cynaliadwy na dinasyddiaeth fyd-eang. O ganlyniad, maent yn tueddu i ganolbwyntio llawer mwy ar agweddau datblygiad cynaliadwy. Mae hyn yn rhannol oherwydd ffocws cryf Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gynaliadwyedd fel thema polisi allweddol.

24 Er bod ysgolion yn frwdfrydig ynghylch hyrwyddo datblygiad cynaliadwy, maent yn aml yn llai clir ynghylch nodi sut a lle gallant ddatblygu medrau a gwerthoedd cysylltiedig ADCDFE. Mae athrawon yn mynegi dryswch amdani a sut mae'n ymwneud ag addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh). Mae hyn yn rhannol yn adlewyrchu natur amlddisgyblaethol ADCDFE ac ABCh. Mae sylfaen gysyniadol eang y naill a'r llall yn ei gwneud yn anodd i ysgolion a cholegau gynllunio profiadau dysgu ADCDFE ac ABCh mewn cwricwlwm sy'n rhy llawn.

25 Mae ysgolion sydd â dealltwriaeth gadarnach o ADCDFE fel arfer wedi treulio llawer o amser yn trafod y pwnc ac yn hyfforddi staff. Mae hyn wedi arwain at gynnydd yn hyder athrawon wrth iddynt ddatblygu dealltwriaeth fanylach. Disgrifiodd un pennaeth y modd yr oedd 'diffyg hyder gan staff ar y dechrau o ran yr hyn yr oedd yn ei olygu a sut i ddelio â hi….fy rôl i oedd creu'r momentwm'.

26 Yn gyffredinol, mae personél allweddol mewn ysgolion a cholegau yn gyfarwydd â'r naw cysyniad allweddol yn y ddogfen arweiniad cwricwlwm, ond nid yw staff eraill yn gyffredinol yn ymwybodol ohonynt. Nid yw'r athrawon hynny sy'n gyfarwydd â'r cysyniadau yn teimlo'u bod yn ddefnyddiol wrth fynd i'r afael ag ADCDFE. Maent yn ei chael yn anodd sefydlu naill ai'r cysylltiad rhwng y diffiniad o ADCDFE a'r cysyniadau neu sut i ddefnyddio'r cysyniadau i drefnu gwaith a gweithgareddau ADCDFE.

27 Ar hyn o bryd, nid yw diben a diffiniad ADCDFE yn ddigon clir. Mae'n annhebygol y bydd graddau ac ansawdd ADCDFE yn cael eu gwella nes bod gan athrawon ddealltwriaeth gliriach o'r hyn y mae'n ei chynnwys a sut gallant gymhwyso hyn mewn arfer. Oherwydd y caiff ei diffinio a'i dehongli'n eang gan ysgolion a cholegau i weddu i'w hanghenion, mae yna amrywiad mawr yn natur gweithgareddau ADCDFE ledled Cymru. Mae hyn yn golygu bod cryn dipyn o her wrth nodi meini prawf i arfarnu perfformiad yn y maes hwn. Oherwydd nad oes diffiniad a dealltwriaeth glir o ADCDFE, nid yw ysgolion a cholegau yn gwybod yr hyn y mae angen iddynt ei wneud, ac os ydynt yn gwneud rhywbeth, a ydynt yn ei wneud yn dda.

Pa mor dda y deellir elfennau ADCDFE?

28 Ar hyn o bryd, mae ysgolion a cholegau'n deall yn gyffredinol bod ADCDFE yn cynnwys rhai neu bob un o'r cydrannau canlynol:

- gwybodaeth a dealltwriaeth am y byd, ei bobl, y cysylltiadau rhyngddynt a'u perthynas â'r amgylchedd;
- polisïau ac arferion sefydliadol priodol;
- cyfranogiad dysgwyr a gwneud penderfyniadau; a
- syniadau beirniadol dysgwyr.

Ar y cyfan, mae'r rhain yn darparu strwythur cysyniadol priodol i gefnogi datblygiad ADCDFE.

29 Ar hyn o bryd, mae dwy farn eang am yr hyn y mae ADCDFE yn ei gynnwys. Mae'r farn gyntaf yn canolbwyntio ar ddatblygu dealltwriaeth o'r cysylltiadau a'r berthynas mewn cymdeithas a'r amgylchedd, yn lleol ac yn fyd-eang, a gwerthfawrogiad ynghylch pam mae'r cysylltiadau hyn yn bwysig. Mae'r dehongliad hwn sydd â ffocws cymharol gyfyngedig yn ystyried bod ADCDFE yn cael ei chyflwyno'n bennaf trwy:

- bynciau yn y cwricwlwm; a
- pholisïau ac arferion sy'n hyrwyddo gweithgareddau fel arbed ynni ac effeithlonrwydd adnoddau.

30 Mae'r ail safbwynt ehangach yn canolbwyntio mwy ar fedrau meddwl a gwneud penderfyniadau. Mae'r dehongliad hwn yn ystyried ADCDFE fel cyfres o brofiadau dysgu sy'n gwella gallu dysgwyr i wneud dewisiadau gwybodus, yn awr ac yn y dyfodol, mewn perthynas â'r cwestiynau gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol allweddol y maent yn eu hwynebu yn ystod eu bywydau. Mae'r rheiny sy'n amlygu'r farn hon yn amlygu pwysigrwydd medrau cyfranogiad a gwneud penderfyniadau, a gwella hyder a hunan-barch dysgwyr. Mae'r ymagwedd hon yn cynnig heriau i reolwyr wrth sicrhau bod profiadau ADCDFE yn wahanol i waith aml-ddisgyblaethol arall fel ABCh. Mae ysgolion a cholegau ar gyfnod cynnar o ran bodloni'r her hon. Mae eiriolwyr y diffiniad ehangach hwn dim ond yn rhannol

lwyddiannus wrth sicrhau bod ADCDFE yn cyfrannu at rywbeth arbennig a gwahanol fel ei bod yn ychwanegu gwerth at brofiadau'r dysgwyr.

Pa mor dda y deellir manteision ADCDFE?

31 Mae tua thraean o athrawon yn teimlo bod yna fanteision i ddysgwyr mewn dilyn rhaglen mewn ADCDFE. Mae athrawon a swyddogion AALl sy'n teimlo bod yna fanteision, yn eu nodi fel a ganlyn:

- agweddau gwell o wybodaeth a medrau pwnc dysgwyr sydd wedi'u cynnwys yng ngofynion y cwricwlwm cenedlaethol;
- datblygu gwerthoedd dysgwyr, gan gynnwys empathi a goddefgarwch tuag at eraill sy'n helpu disgyblion i barchu pobl eraill;
- newidiadau yn ymddygiad dysgwyr – o ailgylchu cynyddol i ddatrys gwrthdaro a llai o fandaliaeth;
- lefelau gwell o gyfrifoldeb a chyfranogiad dysgwyr mewn gweithgareddau fel ailgylchu neu wneud penderfyniadau;
- gallu gwell dysgwyr i ystyried, trafod a dechrau materion, er enghraifft, yn y cyngor ysgol;
- mynediad i bob dysgwr at destunau a chysyniadau sy'n berthnasol ac yn gyfredol;
- hunan-barch gwell dysgwyr;
- gwella syniadau beirniadol dysgwyr;
- newidiadau i amgylchedd yr ysgol, fel datblygu a chynnal a chadw tir ysgol, a rhaglenni ailadeiladu;
- arbedion cost, er enghraifft, trwy ddefnyddio ynni a phapur yn well;
- gwelliant mewn cysylltiadau ysgol-cymuned; ac
- ethos ysgol gwell.

32 Mae athrawon yn gliriach ynghylch manteision ADCDFE mewn perthynas â chynaliadwyedd a'r amgylchedd. Gwelant fod hyn yn cael ei adlewyrchu'n gynyddol mewn trafodaeth wleidyddol ehangach yng Nghymru, yn enwedig gan mai datblygiad cynaliadwy yw un o'r prif themâu a hyrwyddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae rhai ysgolion a cholegau'n ceisio arfarnu eu gwaith yn y maes hwn trwy edrych ar ystod o ddangosyddion, er enghraifft, defnydd o drydan, niferoedd sy'n cerdded i ysgolion ac ansawdd trafodaethau yn y dosbarth ac aseiniadau. Fodd bynnag, mae ysgolion a cholegau'n ei chael yn anodd asesu effaith eu gwaith yn y maes hwn. Dywedodd un athro 'ei bod yn anodd mesur manteision penodol ADCDFE gan ei fod yn gysyniad mor holl-gwmpasol'.

Beth yw ansawdd a graddau ADCDFE mewn ysgolion yng Nghymru?

33 Sefyllfa gyfredol ADCDFE mewn ysgolion yng Nghymru yw bod:

- pob ysgol yn gwneud rhywfaint o waith sy'n ymwneud ag ADCDFE;
- mwy o waith ar ddatblygiad cynaliadwy nac ar ddinasyddiaeth fyd-eang;
- gwaith mewn ysgolion cynradd o ansawdd gwell ac wedi'i ddatblygu mwy na mewn ysgolion uwchradd;
- tua thri chwarter yr ysgolion yn rhoi ychydig iawn o sylw cydlynus a chyson iddi;
- tua un o bob pump ysgol, ysgolion cynradd yn bennaf, yn dechrau datblygu eu gwaith trwy gydlynu gwell;
- ganddi le canolog a threfnus ym mywyd a gwaith llai nag un o bob deg o'r cyfanswm ac mai ysgolion cynradd yn unig bron yw'r ysgolion hyn;
- mae'r anogaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac arolygiadau Estyn wedi helpu i gynyddu'r sylw y mae ysgolion yn ei roi iddi;
- yn gyffredinol, mae gan ysgolion ddiddordeb mewn datblygu sylw pellach i ADCDFE, neu ddim yn groes iddi, ond mae ymateb i ddiddordeb o'r fath yn golygu bod rhwystrau ymarferol; a bod
- yr arweiniad a'r cymorth ar gyfer datblygu ADCDFE yn anghyson a bod diffyg ynddi o ran cyfeiriad strategol.

34 Mae pob ysgol yn ymgymryd â rhywfaint o waith sy'n ymwneud ag ADCDFE. Yn benodol, mae gwaith ar hyrwyddo byw yn iach yn eang ac mae mentrau ailgylchu ac arbed ynni yn eang. Mae ysgolion yn datblygu ADCDFE amlaf trwy'r dulliau cyflwyno canlynol:

- Cynlluniau, yn enwedig Rhwydwaith Cymru o Gynlluniau Ysgolion Iach ac Eco-Ysgolion;
- sylw i gyfranogiad disgyblion; a
- rhywfaint o ddarpariaeth cwricwlwm, yn gyffredinol trwy ABCh a daearyddiaeth ond nid yn eang mewn mannau eraill.

35 Ar y cyfan, mae ysgolion yn neilltuo blaenoriaeth uwch i, ac maent yn gwneud cryn dipyn yn fwy mewn:

- hyrwyddo byw yn iach;
- hyrwyddo meddwl a dysgu beirniadol; a

- datblygu'r ysgol yn sefydliad cynaliadwy.

36 Mae hyn yn dangos bod ysgolion yn ymateb i ofynion cystadleuol ar gyfer amser cwricwlaidd ar gyfer blaenoriaethau addysgol eraill yng Nghymru, yn hytrach na datblygu ymagwedd gydlynus at ddatblygu ADCDFE. Ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn datblygu elfennau unigol ar ADCDFE heb synnwyr ohoni yn ei chyfanrwydd.

37 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn mynd i'r afael â datblygiad cynaliadwy lawer mwy na dinasyddiaeth fyd-eang. Nifer fach sy'n gwneud i'r gwrthwyneb, fel arfer lle mae'r ysgol wedi'i chysylltu ag ysgol arall rhywle arall yn y byd. Mewn llawer o ysgolion, mae'r pwyslais mewn dinasyddiaeth fyd-eang ar ddimensiynau rhyngwladol yn hytrach nag ar agweddau byd-eang ar fywyd lleol, er enghraifft, y modd y gall ffyrdd unigol o fyw yn y wlad hon gael effaith ddifrifol ar bobl sy'n byw mewn mannau eraill. Nifer gymharol fach o ysgolion sy'n deall bod dinasyddiaeth fyd-eang yn ymwneud â pherthynas leol-fyd-eang bywyd bob dydd, ac nid yn unig â dealltwriaeth ryngwladol.

38 Mae gan ysgolion cynradd fwy o waith da ym mhob agwedd ar ADCDFE nag ysgolion uwchradd. Lle mae gwaith o ansawdd da mewn ysgolion uwchradd, mae fel arfer wedi'i gyfyngu i feysydd pwnc penodol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn disgrifio bod eu gwaith ADCDFE yn gwella ond ei fod yn amrywiol heb lawer o addysgu a dysgu sy'n gyson dda ar draws yr ysgol.

39 Yn gyffredinol, mae ysgolion wedi cymryd rhai camau i:

- ddatblygu partneriaethau rhyngwladol;
- integreiddio themâu datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang i'r cwricwlwm;
- cynllunio'n benodol ar gyfer ADCDFE, gyda chyfrifoldebau ac adnoddau sydd wedi'u dyrannu'n glir; a
- threfnu mentrau a digwyddiadau ADCDFE ysgol gyfan.

40 Y meysydd ADCDFE y mae athrawon yn credu eu bod yn ymdrin yn gymharol dda â nhw ar hyn o bryd yw eu prif flaenoriaethau yn y dyfodol hefyd, er bod y rhan fwyaf yn datgan eu bod yn bwriadu cynyddu sylw i bob agwedd arni. Nid yw lleiafrif mawr o ysgolion wedi cymryd unrhyw gamau tuag at ddatblygu partneriaethau rhyngwladol. Mae tua hanner yr ysgolion yn ei hystyried yn flaenoriaeth gymharol isel ar gyfer y dyfodol o'i chymharu ag agweddau eraill ar ADCDFE.

41 Mae tua un o bob pum ysgol, ysgolion cynradd yn bennaf, bellach yn cyrraedd pwynt lle maent yn teimlo bod angen iddynt gydlynu eu gweithgareddau yn y maes hwn. Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion hyn yn defnyddio nifer o gynlluniau a mentrau gwobrwyo sy'n gysylltiedig ag ADCDFE. Maent yn darparu ystod o brofiadau sy'n ymdrin â themâu a materion ADCDFE, ac maent yn hyrwyddo cyfranogiad disgyblion. Mae llai o ysgolion yn y cyfnod datblygu hwn yn dechrau cydlynu eu gwaith ADCDFE, er enghraifft, trwy ddatblygu polisïau, ei chynllunio mewn cynlluniau

gwaith a chynyddu cysylltiad â'r gymuned. Yn yr ysgolion hyn, mae uwch reolwyr yn rhoi arweiniad cryf.

42 Mae llai nag un o bob deg ysgol, ysgolion cynradd yn unig bron, wedi ymrwymo'n gryf i ADCDFE, ac maent yn ei hystyried yn agwedd sylfaenol ar eu hathroniaeth, eu blaenoriaethau a'u harfer. Maent fel arfer wedi'i chael yn flaenoriaeth strategol dros sawl blwyddyn ac maent yn ei gwneud yn eglur yn eu polisïau a'u cynlluniau datblygu. Mae'r ysgolion hyn yn tueddu i:

- gael trefniadau datblygedig ar gyfer cyfranogiad myfyrwyr;
- integreiddio ADCDFE ar draws y cwricwlwm, fel y bo'n briodol; a
- bod yn awyddus i edrych y tu hwnt i gatiau'r ysgol.

43 Mae'r diffyg eglurder a chysondeb am ddiffiniad, diben a manteision ADCDFE yn ei gwneud yn anodd sefydlu darlun cadarn am yr hyn y mae ysgolion yn ei wneud ac yn enwedig pa mor dda y maent yn ei wneud. O'r gwaith a wnaed i ddarparu'r datganiad sefyllfa hwn, teimlwn y byddai'n fuddiol i ysgolion (a cholegau), AALlau ac eraill sydd â diddordeb mewn ADCDFE ddyfeisio model o'r modd y gall weithredu fel darparwr. Gall y model:

- gael ei ddefnyddio fel y sylfaen ar gyfer sefydlu meini prawf a fydd yn helpu darparwr i farnu pa mor dda y mae'n gwneud; a
- helpu darparwyr i weld y gallent wella a datblygu eu gwaith mewn ADCDFE.

44 Yn atodiad yr adroddiad hwn, mae yna fodel a awgrymwyd sy'n amlinellu nodweddion ADCDFE mewn ysgolion (a cholegau) ar bedair lefel. Dyma'r lefelau gwahanol:

- **sylfaenol**: mae darpariaeth wedi'i chyfyngu i rai pynciau ac mae yna weithgareddau a mentrau ad hoc;
- **yn datblygu**: mae yna lawer o weithgareddau sy'n gysylltiedig ag ADCDFE, fel cynlluniau gwobrwyo, ond mae profiadau disgyblion yn dameidiog ac yn anghyson;
- **wedi'i datblygu**: mae gwaith ADCDFE yn amlycach ac mae mwy o gydlyniad i'r ddarpariaeth; ac
- **wedi'i hymgorffori**: mae ADCDFE yn rhan ganolog o fywyd a gwaith y darparwr.

45 Mae'n bosibl y bydd gwahanol agweddau ar ADCDFE ar lefelau gwahanol mewn sefydliad unigol.

46 Mae'r model wedyn yn amlinellu sut mae'r gwahanol lefelau hyn yn ymwneud â:

- ymdriniaeth â'r cwricwlwm;

- ymwybyddiaeth, dealltwriaeth, medrau a gwerthoedd dysgwyr ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang;

- ymddygiad dysgwyr; a

- pholisïau ac arferion sefydliadol sy'n ymgorffori ADCDFE.

47 Gallai'r model helpu ysgolion a cholegau i nodi a chynllunio ar gyfer y broses y gallai fod angen mynd drwyddi er mwyn gwella'u gwaith ADCDFE. Ar hyn o bryd, cynigir y model fel man cychwyn ac mae angen gwaith a datblygiad pellach arno. Mae ei ddatblygu ymhellach y tu allan i gwmpas yr adroddiad hwn. Os gwelir bod y model yn cyfrannu mewn modd defnyddiol at hyrwyddo ADCDFE, yna byddai angen i'r Panel Ymgynghorol ei ddatblygu a'i integreiddio i'r camau sy'n ofynnol i weithredu'r Cynllun Gweithredu Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang.

Beth yw ansawdd a graddau ADCDFE mewn colegau Addysg Bellach yng Nghymru?

48 Mae'r pedwar coleg sydd wedi'u cynnwys yn yr arolwg ar gyfnodau datblygu gwahanol yn eu gwaith ADCDFE. Mae dau ohonynt wedi archwilio'u darpariaeth ac maent yn ei hymgorffori yn eu gweithdrefnau cwricwlwm, ethos a hunanarfarnu. Mae un coleg yn bwriadu ymgorffori mwy o ADCDFE yn eu cwricwlwm ac mae'r pedwerydd coleg ar gyfnod datblygu cynnar. Mae pob un o'r colegau'n rhoi mwy o bwyslais ar ddatblygiad cynaliadwy nac ar ddinasyddiaeth fyd-eang.

49 Mae pob un o'r colegau'n cynnal cynllun peilot o Gymhwyster Bagloriaeth Cymru gyda nifer fach o ddysgwyr. Mae Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn cynnwys agweddau sy'n ymwneud â chynaliadwyedd a gwneud cysylltiadau byd-eang yn ei raglen graidd. Mae pob un o'r colegau'n teimlo'i fod yn gymhwyster a fydd yn helpu i gynyddu eu cyfraniad at ADCDFE.

50 Y tu hwnt i hyn, mae gan golegau ddealltwriaeth amrywiol o ran ble mae agweddau ar ADCDFE yn digwydd yn eu rhaglenni addysgu. Roedd ymatebion yn amrywio o '….mae ym mhobman … ym mhob maes galwedigaethol', tra ymatebodd eraill eu bod yn meddwl y byddai cryn dipyn o bynciau'n ymdrin ag agweddau. Mae rhai colegau wedi cymryd camau sylweddol tuag at weithredu'n gynaliadwy trwy ei hymgorffori i reoli eu hystadau yn ogystal ag yn y cwricwlwm. Mae eraill ond yn dechrau mynd i'r afael â'r materion hyn.

51 Mae cymorth uwch reolwyr yn ffactor allweddol wrth ddatblygu gwaith mewn ADCDFE. Mae gan un coleg grŵp llywio amgylcheddol gydag aelodau o bob adran o'r coleg. Mae'r 'pencampwyr' hyn wedyn yn ysgogi'r materion yn eu meysydd eu hunain.

52 Ychydig iawn o waith a wnaed tuag at wobrwyo'n ymwneud ag ADCDFE. Fodd bynnag, mae gan golegau gysylltiadau rhyngwladol yn aml. Mae staff yn gwerthfawrogi'r cysylltiadau hyn am eu cyfraniad at ehangu rhagolwg y dysgwr a'r staff eu hunain. Ar gyfer rhai meysydd astudio, ystyrir eu bod yn rhan allweddol o'r cwricwlwm.

Pa gymorth sydd ar gael ar gyfer ADCDFE?

Pa gymorth a gynigir gan yr AALl?

53 Mae cymorth AALl ar gyfer ADCDFE yn anghyson ledled Cymru. Yn gyffredinol, mae gan ymgynghorwyr AALl lawer o gyfrifoldebau, a dim ond un ohonynt yw cymorth ar gyfer ADCDFE, ac mae'n aml yn flaenoriaeth gymharol isel yn eu baich gwaith. Mae gan AALlau bach yn benodol broblemau wrth sicrhau'r adnoddau ar gyfer ADCDFE, hyd yn oed lle maent yn ystyried ei fod yn fater pwysig. Gall AALlau sy'n gweithio gydag AALlau eraill, yn aml fel rhan o drefniant consortiwm, gynyddu'r cymorth y gallant ei gynnig. Mewn rhai achosion, mae hyn yn goresgyn rhai o broblemau'r AALlau bach.

54 Lle mae cymorth ADCDFE ar gael i ysgolion, mae'n canolbwyntio ar ddarparu digwyddiadau hyfforddi, yn aml mewn cydweithrediad â'r fenter GCE. Mae AALlau yn arbennig o weithredol wrth hyrwyddo cyfranogiad ysgolion mewn cynlluniau gwobrwyo a mentrau tebyg, yn enwedig Rhwydwaith Cymru o Gynlluniau Ysgolion Iach.

55 Mae hanner yr AALlau a ymchwiliwyd yn yr arolwg yn dod â chlystyrau o ysgolion at ei gilydd ar gyfer testunau a gweithgareddau ADCDFE. Mae'r ysgolion sy'n cymryd rhan yn ystyried bod hyn yn ddatblygiad buddiol ac maent yn gwerthfawrogi'r cysylltiadau a wneir ag ysgolion eraill yn sgil hyn, gan gynnwys y rheiny sy'n gwasanaethu gwahanol grwpiau oedran.

56 Mae gan ysgolion fynediad at gymorth cyngor ehangach yn y rhan fwyaf o awdurdodau. Mae hyn fel arfer yn ymwneud â materion rheolaeth amgylcheddol. O bryd i'w gilydd, mae hefyd yn cynnwys cymorth ar gyfer gweithgareddau ystafell ddosbarth, er enghraifft, ar reoli gwastraff, neu er mwyn cyfrannu at gynllun gwobrwyo. Mae cynghorau'n rhoi rhywfaint o gymorth i golegau AB ar agweddau ymarferol hefyd, fel cyngor ar adeiladau.

Pa gymorth arall sydd ar gael?

57 Heblaw am yr arweiniad a'r cymorth a dderbynnir gan yr AALl, gall ysgolion fel arfer gael arweiniad a chymorth defnyddiol gan:

- Rwydwaith Cymru o Gynlluniau Ysgolion Iach;
- Cynllun Gwobr Eco-Ysgolion, a chynlluniau amgylcheddol tebyg;
- Canolfannau Datblygu Addysg; a
- chynlluniau rhyngwladol sy'n cysylltu ysgolion.

58 Mae maint cymharol fach o gymorth ariannol ar gael yn lleol trwy fenter GCE. Mae GCE yn weithredol mewn adeiladu strategaethau a fframweithiau rhanbarthol sy'n galluogi ysgolion i hyrwyddo cysylltiadau byd-eang a dealltwriaeth o faterion tlodi'r

byd. Fodd bynnag, ychydig iawn o ysgolion sy'n ymwybodol o'r gwaith hwn ar y cyfan.

59 Caiff colegau AB gymorth allanol yn bennaf gan Ganolfannau Datblygu Addysg a chan rai grwpiau cymunedol. Er bod rhai colegau'n cymryd rhan mewn cynlluniau gwobrwyo allanol a bod ganddynt fentrau fel cysylltiadau rhyngwladol, y duedd yw nad yw'r rhain yn ymwneud yn benodol ag ADCDFE.

Beth yw rôl y cynlluniau gwobrwyo?

60 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cymryd rhan mewn un neu fwy o gynlluniau gwobr sy'n ymwneud ag ADCDFE, a'r rhain yn aml yw'r prif ysgogwr a chyfrwng ar gyfer rhoi sylw iddi. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r cynlluniau'n canolbwyntio ar ddatblygiad cynaliadwy a byw yn iach ac nid ydynt yn rhoi digon o sylw i ddinasyddiaeth fyd-eang. Y prif eithriadau i hyn yw bod yr ysgol neu'r coleg yn cysylltu cynlluniau sy'n cael eu hyrwyddo a'u cefnogi trwy:

- raglen Comenius yr Undeb Ewropeaidd; a'r
- rhaglen Partneriaethau Ysgolion Byd-Eang a reolir gan y Cyngor Prydeinig a ariennir gan DFID, gyda chymorth ychwanegol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

61 Cynllun Eco-Ysgolion yw'r cynllun gwobrwyo y gwneir y defnydd mwyaf ohono, sy'n cynnwys dros 1,000 o ysgolion ym mhob un o'r 22 AALl yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae'r cynllun yn datblygu modiwlau dinasyddiaeth fyd-eang. Mae Cynllun Gwobrwyo Ysgolion Cynaliadwy Sir Benfro, sy'n cynnwys llawer o ysgolion yn y sir, wedi'i strwythuro o amgylch holl gysyniadau ADCDFE ar wahân i 'ddatrys gwrthdaro' a 'gwerthoedd ac amgyffrediadau'.

62 Mae'r awdurdodau lleol hynny sydd wedi datblygu cynllun gwobr penodol yn rhoi cymorth i ysgolion ar faterion ADCDFE trwy'r cynllun hwnnw yn bennaf. Maent yn darparu rhywfaint o hyfforddiant AALl a chymorth cyngor wrth gydlynu'r cynllun, ond mae cymorth ymarferol yn aml yn dibynnu'n ormodol ar gyfraniadau sefydliadau gwirfoddol. Mae ymgynghorwyr AALl yn ystyried bod cyfranogiad mewn cynlluniau yn fuddiol, yn enwedig i ysgolion cynradd. Mae llawer llai o ysgolion uwchradd yn cyfranogi yn y cynlluniau hyn gan nad yw'r rhan fwyaf o'r cynlluniau yn llwyddiannus yn bodloni eu hanghenion.

63 Mae ysgolion sy'n cyfranogi yn gyffredinol yn gyffredinol gadarnhaol ynghylch cynlluniau gwobrwyo. Mae ysgolion sy'n cymryd rhan mewn cynlluniau o'r fath yn gwerthfawrogi'r ysgogiad y mae'n ei roi yn ogystal â chydnabod eu cynnydd yn allanol. Mae ysgolion yn ystyried ei bod yn ddefnyddiol cael fframwaith sy'n rhoi strwythur ar gyfer eu gwaith ac yn eu helpu i osod targedau ar gyfer gwneud mwy o welliannau. Mae'r rhan fwyaf o'r cynlluniau yn pwysleisio bod angen datblygu ethos yr ysgol gyfan a chysylltiadau â'r gymuned. Mae ysgolion sy'n cyfranogi yn gwerthfawrogi'r ffaith fod y gymuned leol, rhieni a llywodraethwyr yn cymryd mwy o ran o ganlyniad i gynlluniau gwobrwyo. Mewn rhai achosion, mae'r cynlluniau gwobrwyo yn golygu bod ysgolion ond yn cyflawni'r camau sydd eu hangen i ennill y wobr yn hytrach na datblygu ethos yr ysgol a gallu'r dysgwyr. Er gwaethaf hyn,

nododd un o'r AALlau y gwnaed arolwg ohono y cynnydd ysgol gyfan cyflym, o waelodlin isel, a wnaed gan sawl ysgol yn sgil cyfranogi yn y Wobr Eco-Ysgolion.

64 Ar y cyfan, mae athrawon yn ystyried bod nodweddion canlynol y cynlluniau yn gymhleth:

- presenoldeb nifer o gynlluniau gwobrwyo gwahanol;
- diffyg cydlynu rhyngddyn nhw a mentrau eraill; a
- dangosyddion a gofynion ansawdd gwahanol y cynlluniau.

Beth yw ansawdd a graddau'r cymorth sydd ar gael?

65 Yn gyffredinol, mae'r awdurdod lleol a'r sector gwirfoddol yn rhoi cymorth i ysgolion a cholegau trwy ymagwedd gydweithredol. Mae hyn yn arbennig o wir am ysgolion cynradd. Mae'n llai amlwg, ond nid yn gyfan gwbl absennol yn y sectorau addysg uwchradd ac addysg bellach.

66 Nid oes darlun cenedlaethol clir o ansawdd a graddau'r cymorth sydd ar gael. Mae amgylchiadau lleol yn gwahaniaethu'n eang. Er enghraifft, yn Sir Benfro, mae ysgolion yn gadarnhaol am y cymorth sydd ar gael, tra bo ysgolion mewn mannau eraill yn datgan bod y cymorth yn dda, er bod hyn yn amrywio rhwng AALlau. Mae tua hanner yr ysgolion yn gweld bod y cymorth yn gyfyngedig neu ddim yn bodoli o gwbl. Mae'r cymorth gorau:

- wedi'i gydlynu – yn cynnwys yr awdurdod lleol a sefydliadau sector gwirfoddol;
- yn cael ei gefnogi gan adnoddau;
- yn gynhwysfawr yn y modd y mae'n ymdrin â datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang; ac
- mae ei gynnwys o ansawdd da.

67 Mae rhai modelau cydlynu a chydweithio yn dechrau ymddangos trwy ddatblygiad y rhwydweithiau GCE rhanbarthol. Fodd bynnag, mae athrawon yn mynegi'r angen am gydlynu cynlluniau a mentrau gwahanol yn well. Dyma'n benodol yw barn y rheiny sydd wedi dangos diddordeb a chymryd rhan mewn agweddau ar waith ADCDFE yn ddiweddar. Maent yn ystyried bod yr amrywiaeth eang o sefydliadau sector gwirfoddol a chynlluniau gwobrwyo, a'r gystadleuaeth sydd rhyngddynt o bryd i'w gilydd, yn ddryslyd. Un ymateb, a oedd yn nodweddiadol o lawer o ymatebion, oedd bod, 'llawer o gymorth, ond nid yw'n gydlynol'. Mae llawer o fentrau ar waith yn annibynnol ac yn lleol. Nid yw lleiafrif mawr o ysgolion yn ymwybodol o'r hyfforddiant a'r cymorth sydd ar gael.

68 Teimla ysgolion a cholegau ei bod yn bwysig trefnu bod cyllid ar gael ar gyfer ADCDFE. Mae llawer o'r gweithgareddau o bosibl yn cymryd amser, yn enwedig wrth ddechrau a datblygu'r gwaith. Mae hyn yn golygu bod angen arian ychwanegol, ac nid yw ysgolion a cholegau'n teimlo bod digon ar gyfer y gwaith hwn. Yn

ychwanegol, mae angen cyllid hefyd ar gyfer gwella cydlynu gwaith ADCDFE mewn ardaloedd lleol. Cyfeiriodd ysgolion at effaith gadarnhaol cydlynwyr lleol ar gyfer cynlluniau fel Rhwydwaith Cymru o Gynlluniau Ysgolion Iach ac Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol.

69 Anaml y mae cymorth yn ymdrin â phob agwedd ar ADCDFE. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o'r cynlluniau gwobrwyo yn ymdrin â rhai agweddau arni, ond nid pob un. Mae cymorth gan AALlau ac adrannau eraill y cyngor ar gael yn fwy ar gyfer datblygiad cynaliadwy nac ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang. Yn ychwanegol, nid yw ymgynghorwyr AALl sydd â chyfrifoldeb am ADCDFE a'r rheiny sydd â chyfrifoldeb am gydraddoldeb hiliol yn aml yn cydweithio'n effeithiol.

Sut ydym ni'n symud ymlaen?

Beth yw'r cyfleoedd, y cyfyngiadau a'r anghenion?

70 Mae yna nifer o gyfleoedd allweddol ar gyfer datblygu ADCDFE ymhellach:

- potensial yr adolygiad cyfredol o'r cwricwlwm cenedlaethol a Chynllun Gweithredu Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang Llywodraeth Cynulliad Cymru i godi ei broffil;
- diwygio manylebau arholi ac ehangu craidd Cymhwyster Bagloriaeth Cymru;
- ychwanegu agweddau dinasyddiaeth fyd-eang at ganllawiau arolygu Estyn ar gyfer addysg bellach; a
- menter GCE, sy'n gallu helpu sefydlu cydweithio rhwng gwahanol asiantaethau a rhwng partneriaid statudol ac anstatudol.

71 Dyma'r cyfyngiadau a'r rhwystrau allweddol at ddatblygu gwaith ADCDFE ymhellach:

- y blaenoriaethau sy'n gwrthdaro ar gyfer cynllunio cwricwlwm;
- yr angen i resymoli blaenoriaethau strategol wrth gynllunio'r cwricwlwm i helpu ysgolion a cholegau i ymgymryd â mentrau Llywodraeth Cynulliad Cymru;
- y blaenoriaethu annigonol mewn ysgolion;
- diffyg gwybodaeth am arfer dda, gan gynnwys mynediad at syniadau syml sy'n hawdd i'w deall;
- cystadleuaeth ganfyddedig rhwng sefydliadau anllywodraethol a rhwng gwahanol fentrau; a
- chymorth mwy cyfyngedig ar gyfer addysg ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang o'i gymharu ag addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy.

72 Ar hyn o bryd, mae ysgolion a cholegau'n nodi'r anghenion canlynol i wella'u darpariaeth ar gyfer ADCDFE:

- ei bod wedi'i chynllunio yn y cwricwlwm ac mewn meysydd galwedigaethol ymlaen llaw, ac nad ymdrinnir â hi ar ôl gorffen y cwricwlwm a'r fanyleb;
- am fynediad gwell at gyllid ychwanegol a dynodedig ar gyfer datblygiad proffesiynol a sefydliadol;
- am hyfforddiant a datblygiad gwell, gan gynnwys hyfforddiant a datblygiad ar gyfer uwch reolwyr, a'i gynnwys mewn addysg a hyfforddiant cychwynnol athrawon;

- i'w chynnwys mewn cynlluniau strategol AALl, fel y Cynllun Addysg Sengl, er mwyn sicrhau cymorth a chyfranogiad AALl parhaus gan bob ysgol;

- i fframwaith egluro'i wahanol agweddau ac amlygu sut mae rhagoriaeth yn ymddangos; ac

- i rannu arfer dda yn fwy a darparu adnoddau o ansawdd da ar gyfer gweithgareddau ystafell ddosbarth.

Symud ymlaen

73 Ar hyn o bryd, mae cynnydd mewn ysgolion a cholegau yn dibynnu'n sylweddol ar gredoau a gwerthoedd athrawon unigol ac ar eu brwdfrydedd dros ADCDFE. Er bod dyheadau mor bersonol yn rym mawr ar gyfer newid, mae'n annhebygol y byddant yn ddigon ynddynt eu hunain i sicrhau ei bod yn rhan ganolog o fywyd a gwaith darparwr. Fodd bynnag, mae yna ffordd arall y mae ysgolion a cholegau'n datblygu eu darpariaeth ADCDFE a allai gynnig awgrym am ddatblygiadau yn y dyfodol. Mae hyn yn dechrau trwy weithredu un neu ddwy raglen sy'n gysylltiedig ag ADCDFE. Mae ysgolion a cholegau wedyn yn darganfod bod angen cydlyniad ar y rhaglenni hyn, ac mae'n ymddangos mai ychydig iawn o ddarparwyr sy'n cyrraedd y cyfnod o ffurfioli eu hymrwymiad trwy gytuno ar bolisi ADCDFE.

74 Mae'n hanfodol bod arweinwyr a rheolwyr yn ystyried ADCDFE yn bwysig er mwyn gallu gwneud unrhyw welliannau. Cyrhaeddir cyfnod allweddol yn y broses hon pan fydd darparwyr yn ei hamlygu mewn cynlluniau datblygu a datganiadau polisi. Mae ysgolion cynradd yn gwneud yn well nag ysgolion uwchradd yn hyn o beth. Mae ymgorffori ADCDFE i addysgu pynciau a gweithgareddau ysgol gyfan mewn ysgolion uwchradd a cholegau AB yn her sylweddol, nid yn unig i'r ysgolion a'r colegau eu hunain, ond hefyd i AALlau ac asiantaethau eraill sy'n cefnogi.

75 Mae'r model a amlinellir yn yr atodiad yn awgrymu pa agweddau y gallai darparwr eu datblygu ar bob lefel. Gall hyn ddarparu sylfaen ar gyfer holi cwestiynau am raddau ac ansawdd cynnydd ADCDFE o un lefel i lefel arall. Er y gallai llawer o ysgolion a cholegau fynd o lefel 'sylfaenol' i'r lefel 'sy'n datblygu' i gyrraedd y lefel 'wedi datblygu', mae angen newid cam mewn athroniaeth ac arfer i gyrraedd y lefel 'wedi'i hymgorffori'. Bydd angen arweiniad a chymorth penodol ar ddarparwyr sy'n dymuno archwilio'r materion ymarferol ac addysgol sy'n ymwneud â phob lefel, er enghraifft, gan Banel Ymgynghorol ADCDFE Llywodraeth Cynulliad Cymru, ei haelod sefydliadau, a chan AALlau.

76 Os yw ADCDFE am gael ei hymgorffori a'i chynnal yn llwyddiannus, mae angen i ysgolion a cholegau ymrwymo i'w hyrwyddo. Fodd bynnag, mae angen iddynt fod yn ofalus nad ydynt yn canolbwyntio ar faterion amgylcheddol yn unig nac ar farn gyfyng am ddatblygiad cynaliadwy a'r dimensiwn byd-eang. Mae angen iddynt hefyd ystyried ADCDFE ochr yn ochr â materion lle gall gyfrannu'n sylweddol, er enghraifft, at:

- ddatblygu llythrennedd gwleidyddol;

- datblygu safbwynt hawliau dynol a chyfiawnder cymdeithasol; a

- gwerthfawrogi amrywiaeth ddiwylliannol.

77 Nid yw'r arweiniad cyfredol ar ADCDFE yn effeithiol wrth helpu i'w hyrwyddo. Nid yw'n egluro:

- ei diben ar gyfer addysg pobl ifanc;
- ei rhesymeg a'i harbenigrwydd o ran ymagwedd a chanlyniadau dysgu; a'r
- cydlyniad rhwng diben, diffiniad, y cysyniadau allweddol a'r defnydd a wneir ohonynt.

Atodiad

Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang - model

Cynigir y model canlynol fel man cychwyn wrth nodi nodweddion allweddol ADCDFE fel y gall darparwyr ddatblygu eu gwaith mewn ADCDFE. Ni chaiff ei gynnig fel darn o waith cyflawn, ond fel gwaith sy'n cael ei ddatblygu.

lefel ⇨ agwedd ⇩	**sylfaenol**	**yn datblygu**	**wedi'i datblygu**	**wedi'i hymgorffori**
ymdriniaeth â'r cwricwlwm	• Mae materion amgylcheddol yn cael blaenoriaeth dros DC neu DFE • Ymdriniaeth wedi'i chyfyngu'n bennaf i ofynion pwnc	• Eir i'r afael yn amlwg ag ADC neu ADFE mewn rhai pynciau • Cysylltu cynllun gwobrwyo neu ysgol yn cyfrannu at rai agweddau ar y cwricwlwm • Ystyrir bod ADCDFE yn ymwneud yn bennaf â materion amgylcheddol	• Cynlluniwyd ar gyfer ADC a DFE ac eir i'r afael â nhw mewn ystod o bynciau • Mae cynlluniau gwobrwyo, mentrau, cysylltiadau ysgol yn cyfrannu at gwricwlwm ysgol gyfan	• Mae ADCDFE wedi'i hintegreiddio ar draws y cwricwlwm ysgol gyfan • Datblygu ADCDFE – gwneir dealltwriaeth, medrau a gwerthoedd perthnasol yn amlwg mewn cynlluniau • Caiff canlyniadau ar gyfer dysgwyr eu monitro
ymwybyddiaeth, dealltwriaeth, medrau a gwerthoedd dysgwyr	• Cyfyngedig i rai meysydd pwnc • Dealltwriaeth gyfyngedig, os o gwbl, o gysylltiadau lleol-byd-eang ac o DC a DFE	• Gallu i gymhwyso dysgu DCDFE ar draws pynciau ac mewn gweithgareddau allgyrsiol • Ymwybyddiaeth o amrywiaeth a chysylltiadau lleol a byd-eang • Datblygu medrau a gwerthoedd cymdeithasol	• Gallu i gysylltu materion lleol â phryderon byd-eang ac i'r gwrthwyneb • Datblygiad clir o ran dealltwriaeth o faterion DC a DFE • Medrau ymholi, dadansoddiad beirniadol a chyfathrebu wedi'u datblygu'n glir mewn cyd-destun	• Mae dysgwyr yn datblygu eu dealltwriaeth a'u medrau trwy ymgymryd â'u entrau eu hunain
ymddygiad dysgwyr	• Wedi'i gyfyngu i raddau helaeth i gysylltiad rhai dysgwyr mewn ailgylchu a mentrau achlysurol eraill fel digwyddiadau elusennol	• Datblygu cyfranogiad dysgwyr • Ar gyfer ADCDFE, mae'n ymwneud yn bennaf â sefyllfaoedd amgylcheddol a/neu ddigwyddiadau unigryw	• Mae cyfranogiad dysgwyr, gan gynnwys gwneud penderfyniadau, yn rhan barhaus o fywyd ysgol neu goleg, e.e. trwy gyngor ysgol neu fyfyrwyr • Cymorth cyfoedion mewn, er enghraifft, datrys gwrthdaro/gwrth-fwlio	• Mae dysgwyr yn gwneud awgrymiadau rheolaidd ac yn flaengar yn arferion DC a DFE yr ysgol
polisïau ac arferion sefydliadol	• Yn gyffredinol, canfyddir bod ADCDFE yn 'fenter arall' • Gellir hyrwyddo mentrau ailgylchu	• Cysylltiad mewn cynllun neu fenter sy'n nodweddiadol yn ddibynnol ar un neu ddau aelod o staff • Rhywfaint o sylw amlwg i arfer ynni cynaliadwy • Rhai staff yn ymwybodol o ADCDFE trwy DPP	• Mae uwch reolwyr yn darparu arweinyddiaeth ar ADCDFE • Mae cynlluniau datblygu a pholisïau yn cyfeirio at ADCDFE	• Mae ADCDFE yn rhan graidd o'r athroniaeth a'r arfer sefydliadol, a chaiff ei monitro, ei harfarnu a'i datblygu'n rheolaidd • Dyrennir adnoddau a chyfrifoldebau ADCDFE penodol mewn cyllidebau